Bwrsari Datblygu Syniad i artistiaid anabl ac / neu artistiaid Du, Asiaidd neu o Leiafrif Ethnig

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn cynnig 5 bwrsari i artistiaid anabl ac / neu artistiaid Du, Asiaidd neu o Leiafrif Ethnig. Mae'r bwrsari yn rhoi cyfle i 5 artist sydd wedi'u tangynrychioli yn ein gwaith ar hyn o bryd i ddechrau datblygu syniad ar gyfer drama neu gynhyrchiad theatr newydd gyda ni.

Yn sgil yr argyfwng diweddar, ry'n ni ar drothwy cyfnod o ail-adeiladu yn y celfyddydau – ac mae hyn yn cynnig cyfle i ni herio'r hen drefn. Ry'n ni'n awyddus i wahodd lleisiau newydd i'r cwmni ac i adlewyrchu cymunedau amrywiol Cymru yn well yn ein gwaith. I gyflawni hyn, byddwn yn buddsoddi mewn artistiaid sydd wedi'u tangynrychioli yn y celfyddydau a gweithio gyda nhw i ddatblygu eu syniadau. Mae'r bwrsarïau Datblygu Syniad yn gam cyntaf yn y gwaith hwn.

Mae hwn yn gyfle i'r artist dreulio amser yn datblygu syniad gyda chefnogaeth tîm Theatr Gen. Gall y gwaith datblygu hwn gymryd ffurfiau gwahanol – e.e. amser ysgrifennu neu greu, sgwrs gydag artistiaid eraill neu weithdy byr. Nod y bwrsari

Datblygu Syniad yw cynnig amser i chi weithio ar egin-syniad a'i ymchwilio.

Byddwn yn croesawu ceisiadau gan unrhyw artist sy'n medru'r Gymraeg – boed yn rhugl neu beidio – ac sy'n uniaethu gydag un neu ragor o'r grwpiau canlynol: **pobl anabl** a **phobl o gefndir Du, Asiaidd neu Lleiafrif Ethnig**.

Manylion:
Ry'n ni'n cynnig bwrsari o £1,000 yr un i bum artist. Gallwch ymgeisio am Fwrsari Datblygu Syniad os ydych chi:

- Yn uniaethu gydag un neu ragor o'r grwpiau canlynol: pobl anabl ac/neu bobl Ddu, Asiaidd neu o Leiafrif Ethnig;
- Â phrofiad – neu uchelgais – o greu gwaith theatr;
- Gydag awydd i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Amserlen:

Cam 1: Mynegi Diddordeb

I fynegi diddordeb, anfonwch deitl a braslun syml iawn o'ch syniad (hyd at 150 o eiriau yn y Gymraeg neu Saesneg) at creu@theatr.com. Gallwch hefyd gyflwyno braslun ar fideo hyd at 2 funud o hyd at creu@theatr.com neu drwy WhatsApp at 07903 842617. Bydd angen cyflwyno'r ffurflen Monitro

Cydraddoldeb hefyd.
Dyddiad Cau: 19 Hydref 2020, 5pm

Bydd panel yn ystyried y mynegiadau o ddiddordeb ac yn cytuno ar restr fer; mae aelodau'r panel i'w cadarnhau. Bydd y rheiny ar y rhestr fer yn clywed gennym erbyn diwedd mis Hydref gyda gwahoddiad i gyflwyno cais llawn.

Cam 2: Cais Llawn (rhestr fer yn unig)

Byddwn yn darparu ffurflen gais, yn ogystal â manylion ynghylch sut i gyflwyno cais fideo, i'r rheiny sy'n cyrraedd y rhestr fer. Byddwn yn cynnig ffi o £50 yr un i aelodau'r rhestr fer lunio'r cais ehangach hwn.
Dyddiad Cau: 16 Tachwedd 2020, 5pm

Bydd y panel yn ystyried yr holl geisiadau ac yn cynnig bwrsari i'r 5 llwyddiannus erbyn diwedd mis Tachwedd 2020.

Gall y gwaith datblygu syniad ddigwydd unrhyw bryd o ddechrau Rhagfyr 2020 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2021.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y cynllun hwn neu'r broses ymgeisio, cysylltwch â Sarah Bickerton: sarah.bickerton@theatr.com.